# Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned Future Energy Llanwern

**Cyfeirnod PINS: EN010171**

**Rhif y diwygiad: 1**
**Dyddiad: 9 Hydref 2025**
**Future Energy Llanwern Limited**

# Cynnwys

**Cynnwys** ..... **2**
**1.0 Cyflwyniad** ..... **4**
1.1 Diben y ddogfen ..... 4
1.2 Pam ydym ni'n cyhoeddi'r ddogfen hon? ..... 4
**2.0 Y broses gynllunio** ..... **6**
2.1 Pam ydym ni'n cyhoeddi'r ddogfen hon? ..... 6
2.2 Y broses DCO ..... 7
2.3 Adroddiad Digonolrwydd Carreg Filltir Ymgynghori (AoCM) ..... 8
2.4 Rhaglen a chyflwyno ..... 8
**3.0 Ynghylch Future Energy Llanwern** ..... **10**
**4.0 Trosolwg o'r Prosiect** ..... **11**
4.1 Y Datblygiad Arfaethedig ..... 11
4.2 Terfynau'r Gorchymyn ..... 11
**5.0 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol** ..... **12**
**6.0 Ymgynghori a dulliau ymgysylltu** ..... **13**
6.1 Egwyddorion ymgysylltu ac ymgynghori ..... 13
6.2 Amcanion yr ymgynghoriad ..... 13
6.3 Y dull ymgynghori ..... 14
6.4 Ymgysylltu cynnar ..... 15
6.5 Amcanion ymgysylltu cynnar ..... 17
6.6 Y parth ymgynghori ..... 18
6.7 Amseriad yr ymgynghoriad ..... 19
6.8 Ar beth ydym ni'n ymgynghori? ..... 20
6.9 Â PHWY YDYM NI'N YMGYNGHORI? ..... 20
6.10 Sut yr ydym yn ymgynghori? ..... 21
6.11 Hyrwyddo'r ymgynghoriad ..... 24
6.12 Sut all y cyhoedd gyfranogi ac ymateb? ..... 27
6.13 Digwyddiadau galw i mewn cymunedol ..... 27
6.14 Gweminarau i'r gymuned a rhanddeiliaid ..... 28
6.15 Sianelau cyswllt y Prosiect ..... 28
6.16 Ymgysylltu ehangach ..... 28

6.17 Grwpiau anodd eu cyrraedd ........................................................................29
**7.0 Ymateb i'r ymgynghoriad** ........................................................................**31**
**8.0 Sut y byddwn yn cofnodi adborth ac yn ymateb iddo** ........................................**32**
**9.0 Rhagor o wybodaeth** ........................................................................**33**
**Atodiad A: Grwpiau ymgynghori anstatudol** ..................................................**35**
**Atodiad B: Terfynau'r Gorchymyn** ........................................................................**39**

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Diben y ddogfen

1.1.1 Mae'r ddogfen hon, a elwir yn Ddatganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC), yn disgrifio sut y mae Future Energy Llanwern Limited yn bwriadu ymgynghori â'r gymuned leol ar ei gynigion ar gyfer fferm solar newydd, a gaiff ei lleoli i'r de o Waith Dur Llanwern (tua 2.5km) sy'n cynnwys Gwastadeddau Gwent rhwng Whitson a Gwndy, Casnewydd.

1.1.2 Defnyddir adborth o'r ymgynghoriad hwn gan Future Energy Llanwern (yr Ymgeisydd) i ddylanwadu a ffurfio dyluniadau terfynol y fferm solar a bydd yn mynd gyda'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO).

1.1.3 Mae'r SoCC yn cynnwys:

- Disgrifiad o'r broses gydsynio y bydd yn rhaid inni ei dilyn
- Amlinelliad o'n cynigion
- Sut yr ydym wedi datblygu ein dull ymgynghori
- Sut y byddwn yn ymgynghori â'r gymuned leol
- Sut y byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad
- Y trefniadau ymgynghori
- Yr hyn y byddwn yn ei wneud ag adborth o'r ymgynghoriad
- Y camau nesaf a rhagor o wybodaeth.

## 1.2 Pam ydym ni'n cyhoeddi'r ddogfen hon?

1.2.1 Mae'r ymgeisydd yn gofyn am gydsyniad o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (y Ddeddf) am fferm solar ar y llawr gyda chapasiti cynhyrchu o tua 380MW am gyfnod o fwy na 40 mlynedd (yr Ymgeisydd). Mae'r cynnig i ddatblygu'n cynnwys adeiladu, gweithredu, cynnal a datgomisiynu Fferm Solar Future Energy Llanwern (y Datblygiad Arfaethedig).

1.2.2 Fel datblygiad seilwaith mawr, mae Future Energy Llanwern yn cael ei gyfrif fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a bydd, felly, gwneir cais am gydsyniad datblygu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig drwy gyflwyno DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio (NSIP) o dan y Ddeddf. Fel rhan o'r broses cyn-ymgeisio, rhaid inni gyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) hwn i egluro sut y byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd iddo ac yn ymgynghori â'r gymuned leol. Mae'r

ymgynghoriad yn gyfle i randdeiliaid ac aelodau'r gymuned leol roi adborth ac i ddylanwadu ar ein cynigion cyn inni gwblhau'r dyluniad a chyflwyno ein Cais.

1.2.3 Mae'r SoCC hwn wedi cael ei baratoi'n unol ag Adran 47 o'r Ddeddf a Rheoliad 12 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau'r EIA 2017), a gyda chyfeiriad at y canllaw ar ymgynghori cyn ymgeisio a gyhoeddwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008: Cam Cyn ymgeisio ar gyfer Prosiectau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ebrill 2024) Llywodraeth y DU yn ogystal â Nodyn Cyngor Dau'r Arolygiaeth Gynllunio (Rôl awdurdodau lleol yn y broses cydsyniad datblygu) a Nodyn Cynllunio Tri (Hysbysu ac ymgynghori).

1.2.4 Yn ôl Adran 47 o'r Ddeddf 'the applicant must prepare a statement setting out how the applicant proposes to consult, about the proposed application, people living in the vicinity of the land'. Rhaid i'r ymgeisydd wedyn gynnal ymgynghoriad yn unol â'r cynigion a geir yn y datganiad, sy'n cynnwys y ddogfen hon – y SoCC.

# 2.0 Y broses gynllunio

## 2.1 Pam ydym ni'n cyhoeddi'r ddogfen hon?

2.1.1 Mae Adran 14 o'r Ddeddf yn diffinio'r mathau o ddatblygiad sy'n cyfrif fel NSIP a lle mae'n rhaid rhoi cydsyniad drwy DCO yn unol ag Adran 31 o'r Ddeddf. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn dod o fewn y diffiniad o NSIP o dan Adrannau 14(1)(a) a 15(1) a 15(3A) o'r Ddeddf; adeiladu gorsaf gynhyrchu ar y tir yng Nghymru nad yw'n cynhyrchu trydan o wynt ac sydd â chapasiti cynhyrchu o tua 380 megawatt (MW).

2.1.2 Mae ceisiadau am DCO yn cael eu cyflwyno i PINS, a fydd yn gweinyddu'r broses DCO ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net (SoS). Bydd PINS yn penodi Awdurdod Archwilio a fydd yn cynnwys un neu ragor o arolygwyr cynllunio i edrych ar y Cais ac wedyn gwneud argymhellion i'r SoS yn unol â'r Ddeddf.

2.1.3 Bydd y SoS wedyn yn penderfynu a ddylid rhoi cydsyniad datblygu i'r Datblygiad Arfaethedig. Cyn cyflwyno'r Cais, bydd Future Energy Llanwern wedi ymgynghori ag ymgyngoreion statudol a gwleidyddion cenedlaethol, cymunedau lleol a'r cyhoedd.

2.1.4 I sicrhau yr ymgynghorir â phobl leol ar ein cynigion, byddwn yn cytuno ar raglen ymgynghori â'r cyhoedd â PINS a'r ddau awdurdod lleol sy'n lletya'r datblygiad – Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd. Bydd y rhaglen hon o ymgynghori statudol yn adeiladu ar yr ymgysylltu a fu eisoes a bydd yn gyfle i bobl mewn cymunedau lleol a'n rhanddeiliaid i ofyn cwestiynau ac i roi adborth ar ein cynigion i helpu i lywio'r Cais.

2.1.5 Wrth ddatblygu'r SoCC hwn, byddwn wedi ymgynghori gydag ac wedi ystyried sylwadau gan y rhanddeiliaid Adran 43 (1) canlynol, yr awdurdodau cynllunio lleol:

- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd.

2.1.6 Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen hon, bydd y SoCC yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau cyfagos er gwybodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Caerdydd.


## 2.2 Y broses DCO

2.2.1 Cyn cyflwyno'r Cais, mae'r Ddeddf yn datgan y dylem ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir sy'n gysylltiedig â'n prosiect, pobl sydd â buddiant yn y tir (PIL) a rhanddeiliaid rhagnodedig.

2.2.2 Mae cynnwys cymunedau, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill yn gynnar yn helpu i sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth werthfawr am effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig a bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi adborth cynnar, i'n helpu i ddeall unrhyw bryderon ac i helpu i ffurfio'r cynlluniau.

2.2.3 Mae cynnwys cymunedau'n gynnar hefyd yn sicrhau bod modd ystyried y mesurau lliniaru cynnar a, phan yn briodol, eu hymgorffori yn ein dyluniadau cyn cyflwyno'r Cais.

2.2.4 Dangosir y broses DCO yn Ffigur 1 a cheir esboniad mwy manwl ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/the-process/[1]




**Ffigur 1: Crynodeb o'r broses gynllunio ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig**

2.2.5 Mae PINS hefyd wedi cyhoeddi set o nodiadau cyngor, sy'n hysbysu ymgeiswyr, ymgyngoreion, y cyhoedd ac eraill â'r ystod o faterion sy'n gysylltiedig â phroses y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys nodyn cyngor wyth, sy'n cynnwys mwy o fanylder am broses gynllunio'r NSIP. Mae'r holl nodiadau cyngor ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-a https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/advice/advice-notes/

[1] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/%20the-process/

2.2.6 Cyflwynwyd Cais Cwmpasu EIA ar 19 Rhagfyr 2024 a chyhoeddwyd Barn Gwmpasu gan PINS ar 29 Ionawr 2025. Roedd hon yn nodi'r materion amgylcheddol a'r pynciau sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig, ac a ddylai gael eu hasesu fel rhan o'r EIA.

2.2.7 Mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo i ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol, ymgyngoreion statudol a sefydliadau lleol i lywio ein cynigion a sut yr ydym yn eu hasesu.

## 2.3 Adroddiad Digonolrwydd Carreg Filltir Ymgynghori (AoCM)

2.3.1 Rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad Digonolrwydd Carreg Filltir Ymgynghori (AoCM) o leiaf dri mis cyn y bwriedir cyflwyno'r Cais.

2.3.2 Mae'r adroddiad AoCM yn rhan allweddol o'r broses cyn-ymgeisio ar gyfer NSIP yn y DU. Mae'n asesu a yw'r ymgeisydd wedi ymgynghori digon â rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyn cyflwyno cais DCO. Mae'r adroddiad yn galluogi PINS i werthuso'r broses ymgynghori a chanfod unrhyw fylchau neu broblemau posibl cyn cyflwyno'r Cais.

2.3.3 Bwriadwyd cyhoeddi'r AoCM yn ddigon cynnar yn y cam cyn-ymgeisio i ganiatáu ar gyfer unrhyw ymgysylltiad ychwanegol sy'n seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad. Mae'n galluogi cyflwyniad ysgrifenedig gan yr Ymgeisydd sy'n crynhoi'r ymgynghori sydd wedi digwydd hyd yma, gan gynnwys ymatebion a gafwyd a sut maent wedi dylanwadu ar y cais.

2.3.4 Mae'r AoCM yn helpu i sicrhau bod yr Ymgeisydd wedi ystyried barn yr ymgyngoreion, yn enwedig awdurdodau lleol, a bod unrhyw faterion na chafodd eu hystyried yn cael sylw cyn cyflwyno'r Cais. Bydd y Cais yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio (https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/project-search) a gwefan y prosiect (https://www.futureenergyllanwern.co.uk/).

## 2.4 Rhaglen a chyflwyno

2.4.1 Byddwn yn cynhyrchu Dogfen y Rhaglen sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig; sy'n nodi pa broblemau a datrysiadau posibl sydd ar gael; ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cais. Mae Dogfen y Rhaglen i'w gweld ar wefan y prosiect, a bydd yn cael ei diweddaru'n ôl yr angen.

2.4.2 Byddwn yn cyflwyno’r Cais pan fyddwn wedi ystyried ac wedi ymateb i’r ymgynghoriad statudol. Bydd y Cais yn cynnwys adroddiad ymgynghori, a ddefnyddir gan PINS i helpu i lywio eu penderfyniadau o ran derbyn y Datblygiad Arfaethedig i’w ystyried.

2.4.3 Mae gan PINS hyd at 28 diwrnod i benderfynu a yw’r Cais yn cyrraedd y safonau gofynnol i gael ei ystyried.

# 3.0 Ynghylch Future Energy Llanwern

3.1.1 Mae Future Energy Llanwern yn gyfrwng diben arbennig a sefydlwyd i reoli'r Datblygiad Arfaethedig ar ran NextEnergy Solar Fund, buddsoddwr blaenllaw mewn ynni solar gydag enw da yn y DU.

3.1.2 Mae gan NextEnergy lawer o brofiad ac arbenigedd ar draws cylch bywyd cyflawn solar ar raddfa cyfleustodau; gan amrywio o reoli buddsoddiadau solar, a gweithredu a datblygu solar.

3.1.3 Mae asedau NextEnergy yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gynhyrchu trydan glân mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol.

# 4.0 Trosolwg o'r Prosiect

## 4.1 Y Datblygiad Arfaethedig

4.1.1 Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli ar dir amaethyddol graddfa is,[2] ac mae i'r de o waith dur Llanwern a'r M4, rhwng Casnewydd a Chil-y-coed. Disgwylir i'r datblygiad, sy'n cynnwys paneli solar ar y llawr, ymestyn ar draws tua 548 hectar a bydd ganddo gapasiti cysylltiad o tua 380 megawatt (MW).

4.1.2 Mae'r Ymgeisydd yn parhau mewn cysylltiad â'r tirfeddianwyr a'r awdurdodau cynllunio lleol perthnasol, ac mae'n cynnal arolygon amgylcheddol cychwynnol i ganfod mannau addas i'w datblygu. Bydd yr ardal derfynol, a fydd yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r Cais, yn cynnwys:

- Tir y gellir ei ddatblygu – dyma'r tir lle byddai'r holl seilwaith trydanol gofynnol cysylltiedig wedi'i leol, fel paneli solar a chysylltiad â'r grid
- Tir na fydd yn cael ei ddatblygu – byddai tir na fyddai'n cael ei ddefnyddio i'r dibenion uchod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mesurau lliniaru'r safle, fel tirlunio, gwella bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd.

4.1.3 Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cysylltu â'r Is-orsaf National Grid bresennol yn Whitson drwy gebl tanddaearol.

## 4.2 Terfynau'r Gorchymyn

4.2.1 Mae Terfynau'r Gorchymyn ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig o fewn ffiniau gweinyddol Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd. Mae Atodiad B yn dangos cynllun dangosol y safle arfaethedig ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.

4.2.2 Mae Terfynau'r Gorchymyn dangosol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig o fewn ffiniau Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd.

---

[2] Nid yw Tir Amaethyddol Graddfa Is yn cael ei gyfrif fel Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV), yn ôl System Asesu Dosbarthiad Tir (LQAS) Llywodraeth Cymru.

# 5.0 Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol

5.1.1 Fel rhan o’r broses gynllunio, byddwn yn asesu’r potensial am effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd a phobl yn unol â safonau a rheoliadau cyfredol. Byddwn yn cynnal Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol) 2017. Bydd yr EIA yn canfod effeithiau amgylcheddol posibl a fyddai’n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu’r Datblygiad Arfaethedig, i ddangos sut mae’r rhain wedi dylanwadu ar ddatblygiad y dyluniad; a’n dulliau i osgoi neu liniaru’r effeithiau mwyaf sylweddol.

5.1.2 Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau’r broses EIA yn ein Datganiad Amgylcheddol (ES), a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o’n Cais. Bydd yr EIA yn seiliedig ar ‘Farn Gwmpasu’ yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y cynllun, a fydd i’w gweld yn: https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/projects/EN010171?lang=cy-energy a https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/future-energy-llanwern-solar-project/llanwern-solar-project/

5.1.3 Ymgynghorir ar Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Gychwynnol (PEIR) – sy’n cynnwys gwybodaeth amgylcheddol gychwynnol am effeithiau’r Datblygiad Arfaethedig – fel rhan o’r broses cyn-ymgeisio. Bydd y PEIR a Chrynodeb Annhechnegol ar gael i’w gweld ar wefan y prosiect ac mewn digwyddiadau a drefnir i’r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Ceir y manylion yma: https://www.futureenergyllanwern.co.uk/cy/hafan/

# 6.0 Ymgynghori a dulliau ymgysylltu

## 6.1 Egwyddorion ymgysylltu ac ymgynghori

6.1.1 Yn unol â gofynion y Ddeddf, a’r Canllaw ar ymgynghoriadau cyn ymgeisio a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth (Deddf Cynllunio 2008: Guidance on the Pre-Application Process Preapplication stage for Nationally Significant Infrastructure Projects (Ebrill 2024)), yn ogystal â Nodyn Cynllunio Dau'r Arolygiaeth Gynllunio (Rôl awdurdodau lleol yn y broses cydsyniad datblygu) a Nodyn Cyngor Tri (Hysbysiad EIA ac ymgynghori).

6.1.2 Bydd Future Energy Llanwern yn ymgynghori ac yn ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon cyn ymgeisio â’r gymuned leol yng nghyffiniau’r Datblygiad Arfaethedig, yn ogystal â thirfeddianwyr, busnesau, cynghorau cymuned, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid technegol ehangach, pan yn briodol.

6.1.3 I sicrhau ein bod yn ystyried yr holl effeithiau posibl, bydd Future Energy Llanwern yn mynd ymhellach na’r gofynion sylfaenol a ragnodir yn y Ddeddf drwy fynd ati i holi barn cymunedau a rhanddeiliaid ehangach.

6.1.4 Rydym yn bwriadu ymgymryd â’n gweithgarwch ymgysylltu’n unol ag egwyddorion a ddarparwyd gan Swyddfa’r Cabinet (2018),[3] sy’n argymell y dylai ymgynghoriadau fod:

- yn glir a chryno
- â diben iddynt
- yn seiliedig ar wybodaeth
- yn un rhan yn unig o broses ymgysylltu
- yn para am gyfnod o amser sy’n gymesur â’r datblygiad
- wedi’u targedu
- yn ystyried y grwpiau yr ymgynghorir â hwy
- wedi sicrhau cytundeb cyn eu cyhoeddi
- yn hwyluso craffu.

## 6.2 Amcanion yr ymgynghoriad

6.2.1 Mae gan y rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu bum prif amcan:

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5ae6d71ae5274a702130dc30/Consultation_principles_.pdf

- Rhannu ac esbonio ein cynigion
- Casglu gwybodaeth drwy wrando ar sylwadau cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill am ein Datblygiad Arfaethedig, pan fydd yn parhau i fod yn y cam dylunio
- Canfod effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ac ystyried sylwadau rhanddeiliaid a chymunedau i osgoi'r problemau hyn neu ddatblygu strategaethau lliniaru neu wella posibl
- Cynhyrchu
- sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y Cais, i'n galluogi i ddangos sut yr ydym wedi cymryd sylw o adborth y gymuned a rhanddeiliaid, a sut mae wedi dylanwadu ar ein hystyriaethau dylunio.

## 6.3 Y dull ymgynghori

6.3.1 Mae Future Energy Llanwern am sicrhau ein bod yn ymgynghori, yn ymgysylltu ac yn gwrando ar farn y bobl sy'n byw'n agos at y Datblygiad Arfaethedig, yn ogystal â chasglu barn grŵp ehangach o randdeiliaid.

6.3.2 Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu ac ymgynghori â'n holl randdeiliaid a chymunedau lleol lle bydd cyfle iddynt i roi adborth yn ystod cam ffurfiannol; pan fydd cyfraniadau'n gallu bwydo i mewn i'r gwaith dylunio mwy manwl sy'n cael ei wneud.

6.3.3 I ymestyn y cyfle i ystod eang o gyfranogwyr gymryd rhan yn ein rhaglen o ymgynghori ac ymgysylltu, ac i ehangu ystod y safbwyntiau lleol a all ddylanwadu ar ein hystyriaethau, mae Future Energy Llanwern wedi ymrwymo i fabwysiadu dull ymgynghori aml-sianel. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys darparu gwybodaeth am y prosiect mewn fformatau hygyrch i helpu i wneud yn siŵr ein bod yn ymgysylltu ag ystod mor eang â phosibl o randdeiliaid.

6.3.4 Cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol cychwynnol rhwng Chwefror a Medi 2024. Yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol hwn, cawsom adborth a gwybodaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, yr awdurdod lleol a sefydliadau amgylcheddol. Rydym wedi defnyddio'r adborth, yr awgrymiadau a'r wybodaeth a gafwyd hyd yma i lywio cam nesaf y broses ymgynghori – yr ymgynghoriad statudol. Am ragor o wybodaeth am ein hymgynghoriad anstatudol, gweler adran 6.4.

6.3.5 Rhagwelir y bydd ein hymgynghoriad yn digwydd yn ystod Hydref/Gaeaf 2025-26. Byddwn yn hwyluso cyfnod ymgynghori sy'n cydymffurfio neu'n rhagori ar leiafswm y cyfnod sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Bydd lansiad yr ymgynghoriad, ynghyd â'r union ddyddiadau pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal, yn cael eu hysbysebu ar yr adeg berthnasol, gyda'r awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu ymlaen llaw.

6.3.6 Bydd Future Energy Llanwern yn defnyddio dull digidol/wyneb yn wyneb o ymgynghori. Yn ogystal â threfnu digwyddiadau galw i mewn, gall y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill weld y cynigion ar-lein, ymuno â gweminarau a rhoi adborth drwy wefan benodol ar gyfer yr ymgynghoriad. Bydd Future Energy Llanwern hefyd yn defnyddio dulliau nad ydynt yn ddigidol i alluogi rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gyfrannu at yr ymgynghoriad ac i gynnig eu sylwadau.

6.3.7 Bydd Future Energy Llanwern yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad yn unol â'r Ddeddf a Rheoliadau EIA 2017 ac yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn hygyrch ac ar gael yn hwylus i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod copïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar gael – gan gynnwys copïau o'r PEIR (a Chrynodeb Annhechnegol), holl ddogfennaeth yr ymgynghoriad a holiadur adborth – wedi'u hargraffu
- agor dau bwynt gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n cynnwys copïau caled o lyfryn yr ymgynghoriad, ffurflen adborth a Chrynodeb Annhechnegol o'r PEIR
- cynnal tri digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb
- cynnal dau ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus drwy weminar a threfnu dau weminar pwrpasol ar gyfer rhanddeiliaid.

6.3.8 Cyn cynnal yr ymgynghoriad statudol, paratowyd y SoCC hwn ac rydym wedi ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol. Mae Future Energy Llanwern wedi ymgysylltu â swyddogion Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd i drafod yr ymgynghoriad arfaethedig. Mae hyn wedi galluogi swyddogion i roi adborth ar ein dull, a ddisgrifir yn y SoCC hwn.

## 6.4 Ymgysylltu cynnar

6.4.1 Ddechrau 2024, lansiodd Future Energy Llanwern y Datblygiad Arfaethedig yn ffurfiol ac ymgymerwyd â rhaglen o ymgysylltu cychwynnol â'r cyhoedd. Roedd y cam gyntaf hwn o ymgynghori anstatudol wedi'i gynllunio i roi cyfle i'r gymuned leol

a rhanddeiliaid allweddol i adolygu cynigion y cam cynnar yn ystod cam ffurfiannol o'r broses ddatblygu.

6.4.2 Fel rhan o'r cam hwn, cafod taflen gyflwyniadol anstatudol ei dosbarthu i 2850 o gyfeiriadau yn y Prif Barth Ymgynghori (PCZ)[4] ym Mehefin 2024, a oedd yn disgrifio cwmpas y Datblygiad Arfaethedig, y buddion a ragwelir, a dulliau i ymgysylltu ymhellach. Roedd y gweithgarwch hwn yn ffordd o gyflwyno'r prosiect i gynulleidfaoedd lleol ac i godi ymwybyddiaeth ohono. Cyn ei lansio i'r cyhoedd, bu Future Energy Llanwern yn rhannu deunyddiau briffio anffurfiol a chynlluniau ymgynghori â swyddogion Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd. Roedd y deunyddiau hyn yn cynnwys crynodeb o'r Datblygiad Arfaethedig, yr amserlenni a ragwelir ar gyfer ymgynghori, a throsolwg o'r amcanion ymgysylltu. Roedd yr adborth a gafwyd gan y ddau awdurdod yn sail i'r dull ymgysylltu cynnar ac roedd wedi cyfrannu at baratoi'r SoCC hwn; gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â disgwyliadau lleol a gofynion statudol.

6.4.3 Roedd y cam ymgynghori anstatudol yn cynnwys y gweithgarwch canlynol:

- Gwefan y prosiect – Lansiwyd y wefan https://www.futureenergyllanwern.co.uk/ i rannu gwybodaeth gynhwysfawr am y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r wefan yn cynnwys trosolwg o'r prosiect, yr amserlenni cyflawni a ragwelir, y cyd-destun polisi perthnasol a manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd drwy enquiries@futureenergyllanwern.co.uk.
- Dosbarthu taflen ymgynghori – Cafodd taflen y prosiect ei danfon i 2850 o gartrefi o fewn y PCZ. Roedd y daflen yn rhoi crynodeb o'r Datblygiad Arfaethedig, cefndir y buddsoddwyr a disgrifiad o'r camau nesaf wrth i'r prosiect ymgeisio am gydsyniad.
- Lansiad i'r cyfryngau a sylw yn y wasg – Cafodd gwybodaeth am y Datblygiad Arfaethedig ei lledaenu drwy ymgyrch wedi'i chydlynu yn y cyfryngau i gyrraedd cynulleidfaoedd y tu allan i'r PCZ.

6.4.4 Roedd sylw i lansiad ymgyrch y cyfryngau a'r wasg yn cynnwys:

- Economi Werdd Cymru (25 Ionawr 2024)

[4] Gweler Adran 6.6 am esboniad o'r PCZ

- Solar Farm Proposed for Newport and Monmouthshire Wales Online (9 Mai 2024)
- Wales' Biggest-Ever Solar Farm Planned to Power 100,000 Homes Business Live (10 Mai 2024)
- Cynlluniau ar gyfer Fferm Solar anferth ar Wastadeddau Gwent yn mynd yn eu blaen

6.4.5 Llythyrau a briffiau i randdeiliaid – Anfonwyd llythyrau at gynrychiolwyr etholedig ac awdurdodau lleol, i gyflwyno'r Datblygiad Arfaethedig yn ffurfiol, a gwahoddiad i'r derbynwyr i gymryd rhan mewn briffiau cynnar ar gyfer rhanddeiliaid. Roedd yr ohebiaeth yn dangos graddfa'r Datblygiad Arfaethedig, ac aliniad â thargedau ynni adnewyddadwy Cymru, ac roedd yn cynnig cyfleoedd i roi adborth cyn yr ymgynghoriad ffurfiol.

6.4.6 Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned/Tref – Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu cychwynnol â swyddogion perthnasol Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a chynghorau cymuned a thref perthnasol. Roedd y cyfarfodydd briffio hyn yn ein galluogi i gael trafodaethau cynnar ar gwmpas y cynigion, effeithiau posibl ar y gymuned, a'r strategaeth ymgynghori gyffredinol.

## 6.5 Amcanion ymgysylltu cynnar

6.5.1 Prif amcanion y cam hwn o ymgynghori anstatudol anffurfiol oedd:

- Deialog gynnar â rhanddeiliaid allweddol cyn yr ymgynghoriad ffurfiol
- Gwahodd adborth cychwynnol ar wybodaeth lefel uchel am y Datblygiad Arfaethedig i helpu i baratoi deunyddiau a chynigion ar gyfer yr ymgynghoriad

6.5.2 Canfod problemau a chyfleoedd lleol yn gynnar yn y broses ddatblygu.

6.5.3 Mae adborth a gafwyd drwy'r ymgysylltu cynnar hwn wedi bod yn sail i esblygiad y Datblygiad Arfaethedig a dull yr ymgynghori statudol. Yn benodol, mae wedi ffurfio'r egwyddorion dylunio ar gyfer cynllun yr arae solar, y pecyn o fuddion cymunedol a'r asesiad amlinellol o'r effeithiau amgylcheddol posibl. Mae Future Energy Llanwern wedi ymrwymo o hyd i gynnal proses ymgynghori dryloyw a chynhwysol wrth i'r Datblygiad Arfaethedig fynd drwy'r camau i wneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO).

## 6.6 Y parth ymgynghori

6.6.1 I helpu i hwyluso ac i lywio'r ymgysylltiad â'r gymuned leol, sefydlwyd Prif Barth Ymgynghori (PCZ); sy'n cynnwys y cartrefi a'r busnesau sy'n amgylchynu'r Datblygiad Arfaethedig. Cafodd y PCZ ei ddatblygu i fod yn gymesur â maint ac effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ac mae wedi'i seilio ar yr asesiad o Derfynau'r Gorchymyn dangosol a ffiniau'r awdurdodau lleol, ac y credwn sy'n gymesur yn achos y Datblygiad Arfaethedig. Wrth ddatblygu'r parth, rydym wedi ystyried:

- ffiniau daearyddol naturiol a dynol presennol, fel priffyrdd, rheilffyrdd a ffiniau siroedd
- cofnodi cymunedau cyfan, yn hytrach na pheidio cynnwys nifer fach o eiddo
- lle'r ydym yn bwriadu gwneud gwaith ychwanegol i alluogi trafnidiaeth adeiladu a mannau ar gyfer cyfarpar

6.6.2 Rydym wedi dynodi PCZ yn y lle cyntaf drwy ymestyn pellter sydd o leiaf dau gilometr o derfyn Ffin Llinell Goch Terfynau'r Gorchymyn (Atodiad B) lle byddai'r paneli PV, yr is-orsaf ar y safle a'r seilwaith atodol yn cael eu gosod. Mae'r PCZ wedi cael ei ymestyn mewn rhai ardaloedd i ystyried:

- parth gwelededd damcaniaethol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, sy'n asesu mannau yng nghyffiniau Terfynau'r Gorchymyn (Atodiad B) a allai brofi rhyw gymaint o effeithiau gweledol
- ffiniau ffisegol presennol, fel priffyrdd
- cofnodi cymunedau cyfan, yn hytrach na pheidio cynnwys nifer fach o eiddo
- lle'r ydym yn bwriadu gwneud gwaith ychwanegol i alluogi trafnidiaeth adeiladu a mannau ar gyfer cyfarpar neu addasiadau i ffyrdd.

6.6.3 Mae'r PCZ wedi'i nodi fel y cymunedau rheini sydd fwyaf tebygol o brofi effeithiau uniongyrchol yn sgil y Datblygiad Arfaethedig.

6.6.4 Mae'r parth wedi'i ymestyn ymhellach lle mae hynny'n gymesur a rhesymol yn seiliedig ar ffiniau presennol i osgoi 'ynysu' cymunedau'n amhriodol




**Ffigur 2: PCZ yr ymgynghoriad statudol.**

6.6.5 Rydym yn derbyn efallai y bydd gan bobl sy'n byw ac yn gweithio y tu allan i'r PCZ ddiddordeb yn ein cynigion ac yn awyddus i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol. Oherwydd hyn, ar gyfer ein hymgynghoriad statudol rydym hefyd wedi datblygu Parth Ymgynghori Eilaidd (SCZ) i sicrhau bod pob unigolyn, cymuned, a sefydliad yn y rhanbarth deheuol ehangach yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a'u bod yn gallu cymryd rhan ynddo. Bydd hyn yn sicrhau yr ymgynghorir â'r cymunedau hynny a all brofi effeithiau mwy anuniongyrchol y Datblygiad Arfaethedig, fel mwy o draffig. O fewn y SCZ byddwn yn codi ymwybyddiaeth drwy nifer o ddulliau, fel hysbysebu a datganiad i'r wasg a anfonir at y cyfryngau lleol, a thrwy ymgysylltu â chynghorau cymuned a thref. Gweler Adran 6.11 – Hyrwyddo'r ymgynghoriad – am ragor o fanylion.

## 6.7 Amseriad yr ymgynghoriad

6.7.1 Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal yn ystod Hydref/Gaeaf 2025-36. Byddwn yn hwyluso cyfnod ymgynghori sy'n cydymffurfio ag isafswm y cyfnod sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf, neu sy'n rhagori ar hynny. Bydd lansiad yr ymgynghoriad, ynghyd â'r union ddyddiadau pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal, yn cael ei hysbysebu ar yr adeg briodol, a bydd yr awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu ymlaen llaw.

6.7.2 Wedi ei gynnal yn unol â'r Ddeddf a'i rheoliadau cysylltiedig,[5] bydd yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i Future Energy Llanwern i gyflwyno'r cynigion ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ac i alluogi ymgyngoreion i gyflwyno eu sylwadau ar y prosiect yn ffurfiol. Mae rhagor o fanylion ar yr hyn y byddwn yn ymgynghori arno a sut yr ydym yn bwriadu ymgynghori i'w gweld isod.

6.7.3 Pe byddwn yn ymgymryd â rhagor o gamau ymgynghori cyfyngedig, penodedig cyn cyflwyno'r Cais, byddwn yn defnyddio rhai, ond nid o reidrwydd pob un, o'r dulliau ymgynghori hyn. Byddwn yn gweithio â'r awdurdodau lleol perthnasol i'n cynorthwyo i benderfynu ar y gweithgarwch mwyaf priodol ar gyfer unrhyw gamau ymgynghori pellach.

## 6.8 Ar beth ydym ni'n ymgynghori?

6.8.1 Bydd Future Energy Llanwern yn gwahodd adborth ar bob agwedd ar y Datblygiad Arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys gwahodd sylwadau ar bynciau sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r canlynol:

- sut y gellir adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn yr ardal
- y newidiadau i Derfynau'r Gorchymyn yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Cwmpasu
- y mesurau lliniaru posibl ar gyfer unrhyw effeithiau amgylcheddol y Datblygiad Arfaethedig a nodwyd yn ystod y cam cychwynnol hwn, a ddisgrifir yn ein PEIR
- cynlluniau, mapiau a dogfennau eraill a fydd yn cyd-fynd â'r PEIR
- y cynigion ar gyfer adeiladu, gweithredu, a datgomisiynu'r safle sydd wedi'u cynnwys yn y PEIR, gan gynnwys opsiynau, lle mae'r rhain wedi'u cyflwyno
- unrhyw faterion lleol neu sensitif y dylem fod yn ymwybodol ohonynt.

6.8.2 Prif nod yr ymgynghoriad statudol hwn yw sicrhau bod y gymuned, tirfeddianwyr, rhanddeiliaid ac ymgynghorwyr technegol yn cael y cyfle i ddeall, i gynnig sylwadau a dylanwadu ar agweddau ar ein cynigion cyn inni gyflwyno ein Cais.

## 6.9 Â PHWY YDYM NI'N YMGYNGHORI?

6.9.1 Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynigion gymryd rhan yn ein hymgynghoriad. Mae Future Energy Llanwern yn croesawu pob sylw a bydd yn

[5] Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at Ddeddf Cynllunio 2008, ac mae'r rheoliadau cysylltiedig yn cynnwys Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig 2009 a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiadau o'r Effaith Aymgylcheddol) 2017.

ystyried pob ymateb perthnasol a geir yn ystod yr ymgynghoriad statudol cyn cyflwyno'r Cais.

6.9.2 O dan Adran 47 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar Future Energy Llanwern i ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig. Mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol sy'n lletya'r datblygiad, rydym wedi datblygu'r PCZ, fel y gwelir yn Ffigur 2.

6.9.3 Yn ogystal â'r PCZ, bydd Future Energy Llanwern yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

- awdurdodau sy'n dod o fewn Adran 43 o'r Ddeddf
- preswylwyr a busnesau lleol yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig
- tirfeddianwyr â buddiant yn y Datblygiad Arfaethedig (rhai sy'n dod o fewn adran 44 o'r Ddeddf)
- cynghorau cymuned a thref
- grwpiau cymunedol
- grwpiau amgylcheddol yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig
- ysgolion a cholegau yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig
- grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a grwpiau anodd eu cyrraedd
- ymgyngoreion statudol eraill (fel y nodir yn Atodlen 1 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009)
- ymgyngoreion anstatudol
- Aelodau Seneddol/Senedd a llywodraeth leol.

6.9.4 Mae rhestr o grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a grwpiau anodd eu cyrraedd, a grwpiau rhanddeiliaid anstatudol, wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

## 6.10 Sut yr ydym yn ymgynghori?

6.10.1 Yn ystod ein hymgynghoriad statudol, byddwn yn defnyddio amryw o ddulliau i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn gynhwysol a hygyrch i'r holl randdeiliaid. Yn ogystal â sicrhau bod yr wybodaeth ar gael ar-lein, byddwn yn trefnu cyfres o weminarau sy'n cynnwys cyflwyniad ar y cynigion a bydd cyfle i ofyn cwestiynau, i helpu i lywio ymatebion i'r ymgynghoriad ac i wella dealltwriaeth o'r Datblygiad Arfaethedig.

6.10.2 Yn ogystal â dull hybrid digidol/wyneb yn wyneb o ymgynghori, bydd dulliau nad ydynt yn ddigidol yn cael eu defnyddio i gynnig dull amgen i ymgyngoreion ymgysylltu a rhoi adborth. Bwriedir i ddigwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb gael eu cynnal yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Mae Tabl 1 yn nodi pa ddogfennau fydd ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Tabl 1: Dogfennau'r ymgynghoriad statudol**

| Dogfen | Manylion |
|---|---|
| **Cylchlythyr yr Ymgynghoriad** | Bydd Cylchlythyr yr Ymgynghoriad yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r Datblygiad Arfaethedig, y digwyddiadau ymgynghori, a sut y gall pobl gymryd rhan. Bydd y cylchlythyr yn dangos lle gellir cael gwybodaeth berthnasol am y Datblygiad Arfaethedig a bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ymgynghori, gan gynnwys lleoliadau, dyddiadau ac amseroedd.<br>Bydd hwn yn cael ei anfon i bob cartref a busnes o fewn y PCZ a bydd ar gael ar wefan yr Ymgeisydd, mewn digwyddiadau, pwyntiau gwybodaeth, a drwy'r post, ar gais. |
| **Taflen Wybodaeth yr Ymgynghoriad** | Bydd Taflen Wybodaeth yr Ymgynghoriad yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:<br>• crynodeb o'r cynigion rydym yn ymgynghori arnynt, manylion am sut y gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gwybodaeth am fuddion ac effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig<br>• sut yr ydym yn bwriadu osgoi a lliniaru effeithiau amgylcheddol posibl<br>• sut y caiff adborth rhanddeiliaid ei ystyried a'r amserlen ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig<br>• Bydd copi caled o Daflen Wybodaeth yr Ymgynghoriad ar gael yn ein digwyddiadau ymgynghori, yn y pwyntiau gwybodaeth, a drwy'r post, ar gais, am ddim. |

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Adborth** | Bydd Ffurflen Adborth yn cael ei pharatoi i alluogi pobl i roi adborth ar y Datblygiad Arfaethedig. Gellir cwblhau'r holiadur ar-lein neu ei lawrlwytho os bydd angen, a'i anfon at yr ymgynghoriad drwy Rhadbost.<br>Bydd copïau papur o'r Ffurflen Adborth ar gael yn ein digwyddiadau ymgynghori, pwyntiau gwybodaeth, a drwy'r post, ar gais. |
| **Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Gychwynnol (PEIR) a Chrynodeb Annhechnegol** | Bydd y PEIR yn cynnwys disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig, asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau amgylcheddol posibl, a'r strategaethau cychwynnol sy'n cael eu hystyried i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol posibl.<br>Bydd y PEIR yn seiliedig ar wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd, ond bydd yr asesiadau'n parhau i gael eu datblygu gan ystyried unrhyw esblygiad i'r dyluniad sydd wedi digwydd, yn ogystal ag adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac a adroddwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gyda'r Cais.<br>Bydd Crynodeb Annhechnegol o'r PEIR ar gael i'w lawrlwytho o wefan y prosiect. Bydd copïau papur o'r PEIR a'r Crynodeb Annhechnegol ar gael yn ein digwyddiadau ymgynghori er gwybodaeth. |
| **Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC)** | Bydd y ddogfen SoCC ar gael ar-lein fel rhan o'r ymgynghoriad a bydd fersiwn bapur ar gael yn ein digwyddiadau ymgynghori a phwyntiau gwybodaeth, er gwybodaeth. |

6.10.3 Bydd holl ddogfennau'r ymgynghoriad ar gael ar-lein, ar wefan y prosiect, ac fel copi caled mewn pwyntiau gwybodaeth a digwyddiadau wyneb yn wyneb. Bydd yr holl ddeunyddiau a restrir uchod (ac eithrio'r SoCC a'r PEIR) ar gael yn Gymraeg ar wefan y prosiect. Mae hyn yn cynnwys Crynodeb Annhechnegol y PEIR, a fydd ar gael yn Gymraeg. Gellir cyflenwi dogfennau mewn fformatau eraill, fel braille, testun llafar, neu ieithoedd eraill, ar gais.

### 6.11 Hyrwyddo'r ymgynghoriad

6.11.1 Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau bod pobl yn y PCZ a'r SCZ yn ymwybodol o'r Datblygiad Arfaethedig, ac i hysbysebu'r ymgynghoriad. Dangosir y dulliau hyn yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Dulliau ymgysylltu**

| Dull | Manylion |
|---|---|
| **Consensus/co:design workshop** | Byddwn yn cwrdd ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid technegol yn gynnar yn esblygiad dyluniad y Datblygiad Arfaethedig i rannu gwybodaeth am ein safleoedd a'n cynlluniau, i gael gwybodaeth leol a chytundeb cyffredinol. |
| **Cylchlythyrau'r ymgynghoriad** | Bydd pob preswylydd, busnes a chymuned leol o fewn y PCZ yn cael eu hysbysu o ddechrau'r ymgynghoriad statudol drwy gylchlythyr yr ymgynghoriad, Bydd y cylchlythyr hefyd yn cael ei anfon drwy e-bost at ymgyngoreion lleol, gan gynnwys grwpiau cymunedol a grwpiau anodd eu cyrraedd. |
| **Datganiadau i'r wasg** | Fel rhan o'n gwaith allgymorth a chyhoeddi'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi hysbysebion i roi gwybod am yr ymgynghoriad mewn nifer o gyhoeddiadau lleol a chyfryngau cymdeithasol.<br><br>Hefyd, bydd datganiad i'r wasg leol yn rhoi hysbysiad ehangach i randdeiliaid lleol o'r digwyddiadau ymgynghori, gan gyrraedd rhanddeiliaid y tu allan i'r PCZ. Bydd y datganiad i'r wasg yn cael ei rannu â chyfryngau lleol a masnachol. Bydd yn cael ei anfon at y cyfryngau lleol a rhanbarthol canlynol:<br><br>• South Wales Argus<br>• South Wales Echo<br>• South Wales Evening Post<br>• South Wales Guardian<br>• Monmouthshire Beacon |

| | |
|---|---|
| **Sesiynau briffio ar gyfer rhanddeiliaid** | Byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth ar gyfer rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol lleol (Cynghorwyr, Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol) a Chlercod Cynghorau Cymuned sy'n cynrychioli Wardiau a Chynghorau Cymuned o fewn y Prif Barth Ymgynghori i rannu gwybodaeth am y Datblygiad Arfaethedig ac i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.<br><br>Byddwn yn cynnig sesiynau briffio ac yn trefnu gweminarau ar gyfer y rhanddeiliaid hyn i rannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad. Byddwn yn barod i ystyried gwahoddiadau i, neu geisiadau am, gyfarfodydd â grwpiau lleol eraill neu sefydliadau â buddiant arbennig, fesul achos. |
| **Negeseuon e-bost a llythyrau** | Byddwn yn anfon negeseuon e-bost am yr ymgynghoriad a sut i gymryd rhan, at y canlynol:<br><br>• Aelodau Senedd a Seneddol yr etholaethau sy'n lletya'r datblygiad a'r rhai cyfagos<br>• Cynrychiolwyr etholedig y cynghorau cymuned canlynol<br>• Grŵp Cymunedol Redwick[6]<br>• Cyngor Cymuned Porthsgiwed<br>• Cyngor Cymuned Rogiet,<br>• Cyngor Tref Dwyrain Magwyr gyda Gwndy<br>• Cyngor Cymuned Caerwent<br>• Cyngor Cymuned Goldcliff<br>• Awdurdodau lleol cyfagos<br>• Grwpiau buddiant lleol, fel grwpiau cymunedol ac amgylcheddol. |

[6] Mae Cyngor Cymuned Redwick wedi'i ddiddymu'n ddiweddar, Fodd bynnag, bydd yr Ymgeisydd yn ymgysylltu â Grŵp Cymunedol Redwick yn ei le.

| | |
|---|---|
| **Gwefan y Prosiect** | Bydd gwefan y prosiect yn cael ei diweddaru ar adeg lansio'r ymgynghoriad statudol. Bydd y diweddariad hwn yn cynnwys manylion am ddigwyddiadau ymgynghori, deunyddiau'r ymgynghoriad, a gwybodaeth am sut i gyflwyno adborth ar y Datblygiad Arfaethedig.<br><br>Bydd y dogfennau technegol a restrir yn Nhabl 1 hefyd yn cael eu lanlwytho ar y wefan cyn cyflwyno cais am gydsyniad. Bydd hyn yn galluogi rhanddeiliaid i ymgysylltu'n llawn â'r ymgynghoriad, wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae fersiwn Gymraeg o wefan y prosiect hefyd ar gael. |
| **Hysbysiadau statudol a hysbysebion** | Bydd hysbysiadau statudol sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad a'r SoCC yn cael eu cyhoeddi mewn cyhoeddiadau newyddion lleol a rhanbarthol mewn pryd cyn lansiad yr ymgynghoriad.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi hysbysebion yn y cyfryngau lleol cyn cychwyn y cyfnod ymgynghori. Bydd yr hysbysebion hyn wedi'u dylunio mewn fformat clir a hygyrch, gan gyfleu'n glir natur yr ymgynghoriad, pa bryd y bydd yn weithredol, a sut i gymryd rhan.<br><br>Byddwn hefyd yn cysylltu â chynghorau cymuned yn eu gwahodd i rannu'r hysbyseb drwy eu sianelau cyfryngau cymdeithasol. |
| **Pwyntiau gwybodaeth** | Bydd copïau caled o gylchlythyr a thaflen yr ymgynghoriad a'r ffurflen adborth ar gael i'w rhannu ag ymwelwyr yn y ddau bwynt gwybodaeth dynodedig o fewn y SCZ. Bydd copi o'r SoCC a'r Crynodeb Annhechnegol o'r PEIR hefyd ar gael i'w gweld mewn lleoliadau lleol<br><br>Mae lleoliadau a gaiff eu hasesu cyn cyhoeddi'n cynnwys Neuadd Bentref Redwick a safle posibl ym Magwyr, fel Swyddfa Cyngor y Dref ar y Sgwâr. |
| **Hysbysiadau ar y safle** | Bydd hysbysiadau'n cael eu gosod mewn lleoliadau hwylus o fewn Terfynau'r |

| | |
|---|---|
| | Gorchymyn dangosol i roi gwybod am yr ymgynghoriad. |
| **Digwyddiadau ymgynghori ar-lein ac wyneb yn wyneb** | Byddwn yn cynnal tri digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb a dau ar-lein ar gyfer pwy bynnag sydd â diddordeb yn y Datblygiad Arfaethedig, i ddysgu am ein cynigion ac i rannu adborth. Bydd digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal mewn lleoliadau o fewn y PCZ a rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt ochr yn ochr â'r digwyddiadau ar-lein, yng Nghylchlythyr yr Ymgynghoriad, mewn posteri, hysbysebon a datganiadau i'r wasg. Gall partïon â diddordeb gofrestru i fynychu digwyddiadau ar-lein drwy wefan y prosiect, neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â thîm y prosiect. |

## 6.12 Sut all y cyhoedd gyfranogi ac ymateb?

6.12.1 Bydd y cyhoedd yn gallu cymryd rhan mewn, ac ymateb, i'r ymgynghoriad yn y ffyrdd canlynol:

- tri digwyddiad galw i mewn cymunedol, a gynhelir ar ffurf arddangosfa mewn lleoliadau o fewn y PCZ
- dau weminar cyhoeddus, a fydd yn galluogi pobl i ymuno â'r digwyddiadau o bell
- gwefan bwrpasol, a fydd yn cynnig cronfa o wybodaeth a ffurflen adborth ar-lein
- pwyntiau gwybodaeth mewn lleoliadau cymunedol lle cedwir copïau o ddeunyddiau'r ymgynghoriad a chyfeiriadau at ffyrdd o roi adborth
- canolfan gyswllt y prosiect, gan gynnwys cyfeiriad e-bost pwrpasol, rhif ffôn a chyfeiriad rhadbost.

## 6.13 Digwyddiadau galw i mewn cymunedol

6.13.1 Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb yn yr ardal leol, a fydd yn gyfle i ymgyngoreion i gwrdd â'r tîm, i ddysgu mwy am y cynigion ac i ofyn unrhyw gwestiynau. Gan fod y prif safle'n ymestyn ar draws ffiniau etholaethau Gorllewin Casnewydd a Sir Fynwy, byddwn yn cynnal ymgynghoriadau yn y ddwy etholaeth. Bydd gwybodaeth allweddol am y prosiect yn cael ei harddangos ar fyrddau ymgynghori mawr a bydd aelodau tîm y prosiect wrth law i drafod y prosiect, i ateb cwestiynau a derbyn adborth.

## 6.14 Gweminarau i'r gymuned a rhanddeiliaid

6.14.1 Byddwn yn cynnig sesiynau briffio ar ddechrau'r ymgynghoriad statudol ar gyfer rhanddeiliaid lle gallant ddysgu mwy am y Datblygiad Arfaethedig, a bydd cyfle i ofyn cwestiynau a rhoi adborth, Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ar-lein, gan roi'r dewis i bobl i fod yn bresennol neu o bell. Bydd y digwyddiadau hyn yn gyfle i bobl i ddysgu mwy am y Datblygiad Arfaethedig ac i ofyn cwestiynau i dîm y prosiect. Bydd y digwyddiadau rhanddeiliaid ar gyfer gwahoddedigion yn unig. Bydd y gweminarau cyhoeddus yn agored i unrhyw unigolion neu grwpiau â diddordeb a rhagwelir y byddant yn cael eu cynnal ar Livestorm.

6.14.2 Bydd manylion ar sut i gofrestru ar gyfer digwyddiadau ar-lein ar gael yn y dogfennau canlynol cyn a thrwy gydol yr ymgynghoriad:

- Gwefan yr ymgynghoriad
- Taflen yr ymgynghoriad
- Cylchlythyr yr ymgynghoriad
- Llythyr lansio'r ymgynghoriad
- Hysbysebion
- Posteri.

## 6.15 Sianelau cyswllt y Prosiect

6.15.1 Yn ychwanegol at y dulliau a ddisgrifir uchod, gallwch ddysgu mwy am y Datblygiad Arfaethedig a'r ymgynghoriad, gofyn cwestiynau a gwneud cais am ddogfennau drwy rif rhadffôn y prosiect, neu'r cyfeiriad e-bost. Bydd pobl hefyd yn gallu cyflwyno adborth drwy gyfeiriad e-bost a rhadbost y prosiect.

6.15.2 Mae sianelau cyswllt y prosiect fel a ganlyn:

- Ffôn: 0800 783 5601
- E-bost: enquiries@futureenergyllanwern.co.uk
- Post: FREEPOST FEL SOLAR FARM (sylwer nad oes angen stamp).

## 6.16 Ymgysylltu ehangach

6.16.1 Bydd ymgysylltu parhaus yn digwydd â rhanddeiliaid perthnasol cyn lansio'r ymgynghoriad, a bydd y rhain yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, Aelodau Senedd, Aelodau Seneddol, a grwpiau buddiant lleol, preswylwyr a thirfeddianwyr a fydd yn cysylltu.

6.16.2 Byddwn yn cysylltu â'r holl gynghorau lleol a chymuned, aelodau etholedig Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd, ymhlith awdurdodau lleol perthnasol eraill, ac Aelodau Senedd, Aelodau Seneddol ar adeg lansio'r ymgynghoriad a byddant yn cael eu hysbysu am y cynigion. Byddant hefyd yn cael eu hannog i rannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad â'u hetholwyr neu eu cymunedau lleol.

## 6.17 Grwpiau anodd eu cyrraedd

6.17.1 Mae'n bwysig sicrhau bod yr ymgynghoriad yn gynhwysol ac yn galluogi ystod eang o gynulleidfaoedd i gymryd rhan, gan gynnwys rhai nad ydynt yn cael eu clywed yn gyhoeddus yn aml. Diffinnir grwpiau anodd eu cyrraedd fel rhai na ellir cysylltu â hwy drwy'r dulliau ymgynghori mwyaf traddodiadol a chonfensiynol. I sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, bydd y deunyddiau a'u cynnwys yn cael eu paratoi mewn ffordd sy'n hygyrch a chlir. Mae grwpiau anodd eu cyrraedd yn cynnwys:

- yr henoed
- pobl â nam ar eu golwg
- pobl â nam ar eu clyw
- pobl â chyfyngiadau symudedd
- unigolion neu gymunedau sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol.

6.17.2 Byddwn yn ymdrechu i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a rhai nad ydynt yn cael eu clywed yn aml drwy:

- cynnal gweminarau ar wahanol adegau, gan gynnwys min nos a phenwythnosau, i alluogi pobl â gwahanol ofynion o ran amser i gymryd rhan
- gwneud darpariaeth i bobl sydd heb fynediad at y rhyngrwyd drwy'r rhaglen ymgynghori. Bydd hyn yn cynnwys anfon cylchlythyr cymunedol i bob cyfeiriad yn y PCZ a sicrhau bod deunyddiau allweddol fel taflen yr ymgynghoriad a'r ffurflen adborth ar gael mewn pwyntiau gwybodaeth
- dewis lleoliadau hygyrch ar gyfer pwyntiau gwybodaeth cyhoeddus a digwyddiadau wyneb yn wyneb
- darparu deunyddiau mewn fformatau amgen fel Braille ar gais, cysylltu â sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol gan gynnwys cynghorau cymuned ac ysgolion gyda gwybodaeth am y Datblygiad Arfaethedig a'u hannog i hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy eu sianeli cyfathrebu eu hunain

- darparu amrywiaeth o sianeli cyfathrebu gan gynnwys rhif Rhadffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad Rhadbost i rai a hoffai gael gwybodaeth.

6.17.3 Byddwn yn cysylltu â sefydliadau lleol sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd ac nad ydynt yn cael eu clywed yn aml i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn hygyrch a bod deunyddiau ar gael yn y fformatau priodol. Mae'r sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anodd eu cyrraedd a grwpiau buddiant lleol y byddwn yn cysylltu â hwy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Lleng Brydeinig Frenhinol Cil-y-coed a'r Cylch
- U3A Cil-y-coed a'r Cylch
- Cyngor Ieuenctid Casnewydd
- Cyngor ar Bopeth Casnewydd.

6.17.4 Ceir rhestr o grwpiau o bobl anodd eu cyrraedd a grwpiau buddiant lleol y byddwn yn cysylltu â hwy yn Atodiad A.

# 7.0 Ymateb i'r ymgynghoriad

7.1.1 Dylid cyflwyno adborth i'r ymgynghoriad yn ysgrifenedig neu ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yn y ffyrdd canlynol:

- Ar-lein, drwy gwblhau holiadur ar-lein yr ymgynghoriad, sydd ar gael drwy wefan y prosiect: www.futureenergyllanwern.co.uk.
- Mewn digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb – bydd y sawl sy'n mynychu digwyddiadau ymgynghori'n cael cyfle i gwblhau adborth ar-lein ar lechi a ddarperir.
- Neu, gellir darparu copi papur o'r ffurflen adborth y gellir ei llenwi a'i rhoi i aelod o dîm y prosiect neu ei phostio'n ôl atom drwy Rhadbost.
- Mewn pwynt gwybodaeth – bydd copïau caled o'r ffurflen adborth ar gael mewn pwyntiau gwybodaeth a byddwn yn cyfeirio ymwelwyr at y ffurflen adborth ar-lein fel opsiwn arall.

7.1.2 Drwy holi yn y ganolfan gyswllt gymunedol – gellir gwneud ceisiadau am gopïau papur o'r ffurflen adborth drwy sianelau canlynol y ganolfan gyswllt gymunedol:

- Ffôn: 0800 783 5601
- E-bost: enquiries@futureenergyllanwern.co.uk
- Post: FREEPOST FEL SOLAR FARM (noder nad oes angen stamp).
- Cyflwyno sylwadau drwy e-bost – Gall unrhyw rai rannu eu barn drwy anfon eu sylwadau drwy e-bost i: enquiries@futureenergyllanwern.co.uk neu'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad Rhadbost.

# 8.0 Sut y byddwn yn cofnodi adborth ac yn ymateb iddo

8.1.1 Bydd yr holl adborth a geir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei brosesu mewn cronfa ddata ddiogel, a'i adolygu a'i ddadansoddi. Bydd sylwadau sy'n rhannu themâu tebyg yn cael eu grwpiau gyda'i gilydd yn ôl 'pwnc'. Bydd pob sylw mewn pwnc wedyn yn cael eu crynhoi fel 'datganiadau pwnc' ac yn cael eu hystyried gan dîm prosiect Future Energy Llanwern. Bydd y tîm yn ystyried yr holl ddatganiadau pwnc fel rhan o'r broses ddylunio sydd ar waith ac yn asesu sut y gellir osgoi, rheoli neu liniaru effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig, a sut y dylai'r mesurau lliniaru hyn gael eu sicrhau drwy ofynion (tebyg i amodau cynllunio) yn y Cais a gyflwynir, gan fabwysiadu awgrymiadau pan fydd hynny'n bosibl ac yn briodol.

8.1.2 Bydd Adroddiad Digonolrwydd Carreg Filltir Ymgynghori (AoCM), sy'n dangos ein bod wedi ymgynghori'n ddigonol â rhanddeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, yn ystod yr ymgynghoriad, yn cael ei gyflwyno i PINS o leiaf dri mis cyn y dyddiad y disgwylir cyflwyno'r Cais.

8.1.3 Bydd Adroddiad Ymgynghori hefyd yn cael ei gynhyrchu fel rhan o'n Cais, a gaiff ei gyflwyno i'r SoS. Bydd y ddogfen hon yn dangos sut mae adborth o'r ymgynghoriad wedi ffurfio a dylanwadau ar y Datblygiad Arfaethedig. Ceir ymateb i'r holl adborth a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn yr Adroddiad Ymgynghori a'i gynnwys yn y ddogfen gyda'r holl fanylion personol wedi'u golygu. Byddwn yn cymryd gofal rhesymol i gydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Pholisi Preifatrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio.

## 9.0 Rhagor o wybodaeth

9.1.1 Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy:

- Ymweld â gwefan y prosiect www.futureenergyllanwern.co.uk
- E-bost: enquiries@futureenergyllanwern.co.uk
- Ffonio: 0800 783 5601 (9:00am i 5:30pm, Dydd Llun i ddydd Gwener)
- Ysgrifennu at dîm y prosiect yn FREEPOST FEL SOLAR FARM (dim angen stamp).

# Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned

# Atodiad A: Grwpiau ymgynghori anstatudol

**Cyfeirnod PINS: EN010171**

**Rhif y diwygiad: 1**
**Dyddiad: 9 Hydref 2025**
**Future Energy Llanwern Limited**

# Atodiad A: Grwpiau ymgynghori anstatudol

| Grwpiau cymunedol | | |
|---|---|---|
| Cymunedau yn Gyntaf Pillgwenlli | Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy | Tîm Tref Cil-y-coed |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | Hybiau Cymunedol Sir Fynwy | Cartrefi Dinas Casnewydd |
| Eglwys St Thomas, Redwick | Mind Casnewydd | Grŵp Cymunedol Redwick |
| **Sefydliadau addysgol** | | |
| Clwb Eco Ysgol Gyfun Trefynwy | Ysgol Uwchradd Llanwern | Ysgol Maes Ebbw |
| Ysgol Gynradd Alway | Ysgol Gynradd Charles William yr Eglwys yng Nghymru | Ysgol Gynradd Eveswell |
| Ysgol Gynradd Gorllewin Glan Llyn | Ysgol Gynradd Langstone | Ysgol Gynradd Llysweri |
| Ysgol Gynradd Lodge Hill | Ysgol Gynradd a Meithrinfa Maesglas | Ysgol Gynradd Magwyr yr Eglwys yng Nghymru |
| Ysgol Gynradd Maendy | Ysgol Gynradd Pilgwenlli | Ysgol Gynradd Ringland |
| Ysgol Gynradd Somerton | Ysgol Gynradd St Andrew | Ysgol Gynradd Gatholig St Gabriel |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Joseff | Ysgol Gynradd St Julian | Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Michaels | Ysgol Gynradd St Woolos | Ysgol Gynradd Gwndy |
| Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli | Ysgol Gymraeg Casnewydd | Ysgol Gynradd Gatholig St Patrick |
| Ysgol Gynradd Glan Usk | Ysgol Gynradd Llanmartin | Ysgol Gynradd Milton |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Llyswerri | Ysgol St Julian | Ysgol John Frost |
| Ysgol Gyfun Caerllion | Ysgol Gyfun Gwent Is Coed | Ysgol Uwchradd Llanwern |
| Prifysgol De Cymru – Campws y Ddinas | Coleg Gwent – Campws Casnewydd | Wadham College of Science |
| **Grwpiau Diwydiannol a thirfeddianwyr busnes** | | |
| Asiantaeth Ynni De Ddwyrain Cymru | Fforwm Busnes Sir Fynwy | Newport BID |
| Celtic Manor Resort | Monmouthshire Building Society | Associated British Ports (Dociau Casnewydd) |
| CBI Cymru | RenewableUK Cymru | Wales & West Utilities |
| National Grid (De Cymru) | Siambr Fasnach De Cymru | Sefydliad Materion Cymreig (IWA) |
| Rhwydwaith Arloesi Cymru | Cyngor Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | Tata Steel |
| Gwent Europark/Tesco | Magor Brewery (ABInBev) | EV Cargo |
| Wilko Distribution | Lovell Homes | Redrow |
| Bellway | Revantage (Glan Llyn) | Miller Homes (Glan Llyn) |
| Indurent (Indurent Park) | Persimmon Homes (Glan Llyn) | |
| **Grwpiau anodd eu cyrraedd** | | |
| Cyngor ar Bopeth Casnewydd | GAVO | The Wallich |
| Age Cymru Gwent | Cymorth i Ferched Sir Fynwy | Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid Casnewydd |
| Grŵp Mynediad Anabledd Sir Fynwy | Banc Bwyd Cil-y-coed | Anabledd Cymru |
| Lleng Brydeinig Filwrol Cil-y-coed a'r Cylch | Clwb Probus Cas-gwent a'r Cylch | Sefydliad y Merched Gwent |
| U3A Cil-y-coed a'r Cylch | Cyngor Ieuenctid Casnewydd | Clwb Ffermwyr Ifanc Gwent |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy | Gwent Girlguides | Gwent Scouts |
| Sipsiwn a Theithwyr Cymru | Cyngor Mwslimiaid Cymru | Cysylltu Eglwysi Efengylaidd Cymru |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Eglwys Gatholig Cymru a Lloegr | Hindu Cultural Association |
| Esgobaeth Mynwy (Yr Eglwys yng Nghymru) | | |
| **Grwpiau amgylcheddol** | | |
| Cyfeillion y Ddaear Casnewydd | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | Gwent Ornithological Society |
| RSPB Cymru | Partneriaeth Aber Afon Hafren | Living Levels Landscape Partnership |
| Monmouthshire Meadows Group | Cyfoeth Naturiol Cymru | Amphibian & Reptile Conservation Trust |
| Bwrdd Partneriaeth Amgylchedd Sir Fynwy | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent | |

# Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned

## Atodiad B: Terfynau'r Gorchymyn

**Cyfeirnod PINS: EN010171**
**Rhif y diwygiad: 1**
**Dyddiad: 9 Hydref 2025**
**Future Energy Llanwern Limited**

## Atodiad B: Terfynau'r Gorchymyn

